# Cymraeg




> "Yn ystod y cwrs cefais fy nghyflwyno i sawl profiad gwerthfawr wrth ddysgu am y Chwedlau, yr Hengerdd ac am waith telynegol hardd. Roedd yr ymweliad â chartref Hedd Wyn yn yr Ysgwrn hefyd yn brofiad bythgofiadwy."
>
> **Aziliz Kervegant**





## Pam astudio Cymraeg?

Mae Cymraeg yn bwnc buddiol, diddorol sy'n gallu agor drysau i amrywiaeth o gyrsiau a gyrfaoedd pellach. Yn ogystal, mae'n cynnal gwerthoedd diwylliannol trwy roi statws i hanes a threftadaeth ein gwlad. Byddwch yn astudio ffilm, cerddi, llyfrau gosod cyfoes a llawysgrifau hynafol; byddwch yn trafod, ymchwilio, dadansoddi a chreu gwaith gwreiddiol. Cewch gyfle i adeiladu ar seiliau cadarn TGAU gan ddatblygu eich sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu trwy fagu treiddgarwch ac annibyniaeth barn. Mae'r gwahanol agweddau sydd i'r cwrs yn cyfuno i gyflwyno profiad crwn fydd yn eich paratoi ar gyfer eich camau nesaf yn y Gymru fodern sydd ohoni.

## Gofynion y cwrs

Bydd ennill gradd C neu well mewn TGAU Iaith a Llenyddiaeth yn fodd o sicrhau'r cyfle i astudio Cymraeg Uwch Gyfrannol.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1**: [15%] Arholiad llafar [gwaith grŵp]. Byddwch yn astudio ffilm a drama brint ac yn eu trafod o ran thema, cynnwys, arddull, symbolaeth ac iaith. Bydd yr Uned yn cael ei hasesu gan arholwr allanol fydd yn ymweld â'r ysgol ar ddiwrnod penodol yn ystod yr ail dymor.
**Uned 2**: [10%] Tasgau Gwaith Cwrs. Byddwch yn cwblhau dwy dasg, un o dan amodau. Cewch ddewis o dasgau sgriptio, ysgrifennu creadigol, cyflwyno testun ffeithiol neu greu erthygl ar destun cyfoes.
**Uned 3**: [15%] Arholiad ysgrifenedig. Papur dwy awr, Adran A = defnyddio'r iaith, Adran B = trafod a dadansoddi barddoniaeth; byddwn yn astudio 12 cerdd dros y flwyddyn a byddwch yn ymateb i gwestiwn traethawd yn seiliedig ar y cerddi gosod.

### Uwch

**Uned 4**: [20%] Arholiad llafar [asesiad grŵp] fydd yn seiliedig ar nofel osod a gweithiau synoptig cysylltiedig.
**Uned 5**: [20%] Arholiad ysgrifenedig [2 awr] Chwedlau, yr Hengerdd a'r Cywyddau. Byddwch yn astudio rhai o'r gweithiau Cymraeg hynaf sy'n bodoli ac yn eu trafod o ran thema, cefndir ac arddull.
**Uned 6**: [20%] Arholiad ysgrifenedig [2 awr] Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg yn y Gymdeithas. Byddwch yn cael defnyddio eich sgiliau dadansoddi a dysgu am amrywiaeth o ffurfiau defnyddiol megis ysgrifennu adroddiad, cadw cofnodion a chreu anerchiad.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Gall astudio'r Gymraeg fel pwnc arwain at lu o bosibiliadau gyrfaol. Wrth gwrs, mae ennill Safon Uwch Cymraeg yn hanfodol os ydych am astudio'r pwnc yn y Brifysgol. Ond beth bynnag fydd eich pwnc dewisol bydd cymhwyster Safon Uwch Cymraeg yn sylfaen gadarn ar gyfer pob math o opsiynau. Mae Cymraeg safonol yn hanfodol mewn meysydd fel llywodraeth leol, y Cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduriaeth neu ddysgu. Bydd eich Safon Uwch Cymraeg yn gaffaeliad i chi mewn unrhyw swydd sydd yn gofyn am sgiliau cyfathrebu cadarn a graenus.